# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com   @LlaisLlandyrnog

Medi 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 12

## Sioe Flodau a Chynnyrch lwyddiannus iawn








Diolch i Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog am y nawdd

## Codi arian

Mae'n bleser cyhoeddi bod cyfanswm yr holl arian godwyd mewn boreau coffi ers Awst 2023 yn £7038 – ar gyfartaledd £440 y bore coffi.

Yn ychwanegol, codwyd £2047 at Gŵn Tywys trwy daith gerdded; caffi dros dro Hwb Cae Nant wedi codi £1300 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a £200 at Fanc Bwyd Dinbych; Sioe Geffylau Llandyrnog codi £900. Rhannwyd y swm yma'n gyfartal rhwng Ambiwlans Awyr Cymru, Hosbis Sant Cyndeyrn a chanolfan Marchogaeth ar gyfer yr Anabl ym Mhrestatyn.

Mae rhoi £11,485 i elusennau mewn un flwyddyn yn anhygoel – diolch i bawb am eich cefnogaeth barhaol.

# Canlyniadau Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog

**Ffrwythau a llysiau:** Yr arddangosyn gorau – Richard Davies; y nifer mwyaf o bwyntiau – Roger Warner.

**Blodau:** Yr arddangosyn gorau – John Rowlands; y nifer mwyaf o bwyntiau – Julia Hughes

**Trefnu blodau:** Yr arddangosyn gorau a'r nifer mwyaf o bwyntiau – Karen Morris

**Coginio:** Yr arddangosyn gorau – Jonathan Major; y nifer mwyaf o bwyntiau – Gwenda Marshall


**Pobl ifanc:** Yr arddangosyn gorau – Gwilym Emrys Williams; y nifer mwyaf o bwyntiau: Efan Joseff Pierce a Ralph Kinsey

**Crefft:** Yr arddangosyn gorau – Carolyn Langford-Jones; y nifer mwyaf o bwyntiau – Gwenda Marshall

**Ffotograffiaeth:** Yr arddangosyn gorau – Karen Morris

**Adran oedolion:** Y nifer mwyaf o bwyntiau – Gwenda Marshall; hoff arddangosyn y Llywydd – Ellie Stratton; hoff arddangosyn yr Ysgrifennydd: Penny Kinsey.

**Llywydd y sioe:** Bryn Williams









# Y gair olaf gan Gadeirydd pwyllgor y sioe

Diwrnod ar ôl y sioe medra i edrych yn ôl a dweud, “roedd hi’n sioe dda.”

I fod yn onest mae llawer yn dweud ei bod hi’r sioe orau eto. Yn wir cawsom fwy o gystadleuwyr nag erioed. Roedd hi’n braf hefyd gweld bod niferoedd y bobol ifanc yn cymryd rhan i fyny yn sylweddol. Den ni ddim wedi cyfrif, ond dwi’n siŵr bod y nifer a ddaeth i ymweld yn fwy nag erioed ac yn cyfrannu’n ariannol hefyd. Mae ne ryw naws arbennig am Sioe Llandyrnog, un dwi ddim wedi profi yn unman arall. Mi wnes i sylwi fod bron bawb yn cerdded o gwmpas gyda gwên ar eu hwynebau ac yn mwynhau eu hunain. Fel y gwyddoch, dydi’r sioe ddim jest yn digwydd. Mae misoedd o drefnu wedi bod yn mynd ymlaen i ofalu bod popeth yn ei le a lle i bopeth.

Rhaid i mi ddiolch yn fawr iawn i aelodau’r pwyllgor am eu cyfraniad sylweddol yn arwain at y sioe a hefyd ar y diwrnod. Diolch hefyd i’r gwirfoddolwyr a ddaeth ar y diwrnod i roi ysgwydd dan y baich.

Mae’r babell fawr wedi bod yn fendith er mwyn i’r cystadleuwyr gael lle priodol i ddangos eu cynnyrch a hefyd i fod yn gyfforddus i ymwelwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad  ariannol sylweddol gawsom gan Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog. Roedd hyn yn ein galluogi ni i brynu pedwar gazebo, ugain o fyrddau, swp o siacedi melyn a baneri, a hefyd talu am logi’r babell. Felly mae sioe fach Llandyrnog mewn safle ariannol iach ac yn saff am y dyfodol. Mae hefyd angen diolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn ariannol tuag at y sioe o flaen llaw, sef y noddwyr a’r hysbysebwyr.

Am y tro cyntaf eleni cawsom y rhaglen yn hollol ddwyieithog ac mae diolch yn mynd i Anwen am gyflawni’r dasg anodd yma am y tro cyntaf sydd yn gwneud pethau’n haws yn y dyfodol.

Dwi wedi bod wrth y llyw fel cadeirydd am ddeuddeg mlynedd bellach ac mae hi’n amser i mi sefyll i’r ochor i adael rhywun arall gymryd yr awenau. Dros y cyfnod yma dwi wedi cael cefnogaeth i weld y sioe yn datblygu i fod yn sioe bentrefol hapus a llewyrchus. Mae hefyd yn beth braf i mi gael dweud bod y cyfarfodydd wedi bod yn rhai hapus ffrwythlon a byr! A dim drwg deimlad na gair croes.

Dwi ddim yn gadael y wlad, bydda i’n dal yn aelod o’r pwyllgor ac yn cadw llygaid ar bethau.

Diolch yn fawr i bawb,

John Rowlands



*John gyda llywydd y sioe, y cogydd Bryn Williams*



Mae John Rowlands wedi bod yn Gadeirydd Pwyllgor y Sioe Flodau ers 12 mlynedd ac yn aelod o’r pwyllgor ers sawl blwyddyn cyn hynny. Mae wedi penderfynu rhoi’r gorau i fod yn Gadeirydd ar ôl sioe eleni. I nifer sy’n cyfrannu at lwyddiant y sioe, mae ei enw’n rhan annatod o Sioe Flodau Llandyrnog.

Hoffai’r pwyllgor ddiolch yn ddiffuant iawn i John am ei waith caled ac mae’n gobeithio elwa o’i brofiad a’i gyngor am sawl blwyddyn eto.







**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks





Ydy Bryn yn mynd i archebu llysiau o Landyrnog i'w gweini yn ei fwytai?






*Y fan yn barod i gasglu nwyddau!*

hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

**gwefannau - websites!**

**www.hgwebdesigns.co.uk**

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

**hannah@hgwebdesigns.co.uk**

# Pytiau newyddion y pentre

***Cydymdeimlwn*** â theulu Llys Aled – Catrin wedi colli ei thaid. Hefyd ag Elen Lloyd a'r teulu, Maes Tyrnog – Elen wedi colli ei nain a'i thad o fewn cyfnod byr.

***Llongyfarchiadau i*** ...

...Aled a Jane Thomas ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd Ava Violet i Lowri a Sean, chwaer fach i Oscar a Jack; a Riva Vaughan, merch Rob a Sian, chwaer fach i Ivy Rose.

… Dick a Sue Hughes, Bron Berllan, ar enedigaeth ŵyr. Ganwyd Dion Reece i Rachel ac Aled, brawd bach i Savannah Mae. Roedd y teulu ifanc yn arfer byw yn Arosfa. Llongyfarchiadau hefyd i Rachel ar ennill gradd MSc fel Uwch-ymarferydd Nyrsio, ychydig wythnosau cyn geni Dion.

… Hazel a Gareth Roberts, Bod Hyfryd ar ddathlu 60 mlynedd o briodas. Roedden nhw wrth eu boddau i gael cerdyn gan y Brenin a'r Frenhines i ddathlu eu pen blwydd priodas ddiemwnt.

... Richard Williams, Plas Bennett, ar dorri record Cymru mewn codi pêl atlas. Mae Richard yn cystadlu'n aml yng nghategori dan 105kg cystadlaethau Strongman. 165kg oedd yr hen record, ac mae Richard wedi chwalu hwn yn llwyr, gan godi 171kg!

... Alaw Griffith, Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg BIPBC, a gafodd y wobr Gwasanaeth Hir mewn seremoni yn Abergele. Mae Alaw wedi bod yn gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd ers 1997 – tipyn o gamp!




**Dymuniadau da** i Ilan Wyn Evans, Fforddlas a Morgan Jones, Glan y Wern Isaf, a fu'n dathlu eu penblwyddi'n 18 oed ym mis Awst, ac i Leah Whitehead-Hughes, Y Rofft, ar ddathlu ei deunawfed pen blwydd ym mis Medi.

**Codi arian at Gŵn Tywys**

Cynhaliwyd taith gerdded elusen Dowell Ddydd Sadwrn, Awst 3, i godi arian tuag at Gŵn Tywys. Daeth llawer ynghyd ar ddiwrnod braf i gefnogi Rob Dowell a'i gi tywys, Alba. Ar ôl taith o gwmpas Llangynhafal a Hendrerwydd, cafwyd barbeciw yn y Golden Lion, Llandyrnog.

Mae'r trefnwyr yn hynod o ddiolchgar am bob cyfraniad, a'r cyfanswm terfynol oedd £2046.99. Dyma beth oedd ganddynt i'w ddweud: "Mae'n anodd ei roi mewn geiriau, ond mae'r ymdrech a'r parch gwirioneddol at Rob Dowell fel cymeriad, wedi gwneud hon yn noson fythgofiadwy. Llawer o ddiolch i Elfor, Dai Twin a phawb a roddodd o'u hamser i gychwyn y barbeciw, i Mark a Sam am eu croeso, i John Sellers a Bov ei bianydd ffantastig am berfformiad gwych – noson i'w chofio. Roedd y gefnogaeth ar y noson yn anhygoel – allwch chi ddim curo bywyd pentre."







*John Sellers, Rob Dowell a Bov (Erfyl Owen) yn darparu'r adloniant min nos*

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 2$^{il}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | 3$^{ydd}$ | Clwb Llyfrau 10am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Llun | 9$^{fed}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Cyfarfod pwyllgor y *Llais*, 7pm |
| Llun | 16$^{eg}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 17$^{eg}$ | Clwb Llyfrau 10am<br>Cyfarfod y Cyngor Cymuned 7pm |
| Mer | 18$^{fed}$ | Tuesday Club, 2pm |
| Iau | 19$^{ain}$ | Gweithdy crefftau, 7–9pm |
| Sad | 21$^{ain}$ | Gweithdy crefftau, 10am–12pm |
| Llun | 23$^{ain}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Grŵp cwiltio 7pm |
| Iau | 26$^{ain}$ | Paned a chacen at Macmillan Cancer Support, 10am |

I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

Dydd Iau 26 Medi
10 y bore – Ganol Dydd
Dewch i'r Ystafelloedd Coco i gael paned a chacen ac i gyfrannu

MACMILLAN CANCER SUPPORT

**Bore Coffi**

**Neuadd y Pentre**
**Dydd Sadwrn, 14th Medi**
**10.00-11.30**
**Yr elw at y Trefoil Guild**
**Croeso cynnes i bawb!**

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun 2$^{il}$ | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 3$^{ydd}$ | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Mer 4$^{ydd}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 5$^{ed}$ | Côr | 7.30–8.30pm |
| Sad 7$^{fed}$ | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Sul 8$^{fed}$ | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 9$^{fed}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30-9–pm |
| Mer 11$^{eg}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 12$^{fed}$ | Côr | 7.30–8.30pm |
| Sad 14$^{eg}$ | Bore coffi – Trefoil Guild | 10–11.30am |
| Llun 16$^{eg}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30-9.30pm |
| Mer 18$^{fed}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 19$^{eg}$ | Côr | 7.30–8.30pm |
| Llun 23$^{ain}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30-9.30pm |
| Sad 28$^{ain}$ | Bore coffi – Eisteddfod Llandyrnog | 10–11.30am |
| Llun 30$^{ain}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30-9.30pm |

I hurio Neuadd y Pentre, cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

**Diolch yn fawr iawn eto i'r rhai ddaeth draw i'r sioe geffylau. Oherwydd y gefnogaeth wych gawson ni, rydyn ni wedi llwyddo i roi £300 yr un tuag at Ambiwlans Awyr Cymru, Hosbis Sant Cyndeyrn a'r ganolfan Farchogaeth ar gyfer yr Anabl ym Mhrestatyn.**

# Be sy mewn cae?

Defaid, gwartheg, cnydau, ceffylau, coed?

Wel mi ryden ni'n siarad am gae sy'n cael ei alw *The Parks/Parcs* ar dir Fferm Llangwyfan. Cyn hyn ei enw oedd Parc Islwyn (ar ôl y tŷ sy ar gornel y cae) a *Pharc Hospital* (yn ymyl Ysbyty Llangwyfan/Sanatoriwm agorwyd yn 1916), a chyn hyn yn rhestr Degwm 1841 – *Park*, Plwyf Llandyrnog a Chae Tan y Chwarel (cae o dan y chwarel oedd yn ymyl Penllwyn. Roedd yna hefyd siafft gwaith plwm yn ymyl Penllwyn, ac yn 1858 cofnodwyd bod dau gloddiwr plwm yn byw yn Fron Haul, Llangwyfan).

Oes, mae 'na ddefaid yn y cae hwn ond efallai bod llawer iawn mwy sy'n gallu datgelu'r gorffennol a'r bobol oedd yn yr ardal hon?

***Beth ryden ni'n ei wybod***?

Mae'r cae wrth Eglwys y Plwyf, Llangwyfan (St Cwyfan), a sefydlwyd gan Cwyfan, sant o'r 6ed neu'r 7fed ganrif. Mae'r cyfeiriad cynharaf at yr eglwys yn 1254, yn y *Norwich Taxatio*. Datgelwyd yn 1997 pan adnewyddwyd yr Eglwys, ei bod hi'n bosib fod claddfeydd tu mewn i'r eglwys, a bod rhan o'r sylfeini yn perthyn i adeilad cynharach – canoloesol o bosib (yr Oesoedd Canol neu'r Oesoedd Tywyll, 476AD–1400/1450 – tua 1000 o flynyddoedd).

Mae yna ddarlun/plât gan John Ingleby yn 1793 yn dangos tai (sydd wedi diflannu erbyn hyn) – 'pentref' yn ymyl yr eglwys yn y *Parks*. Mae 'na hen loc defaid a chyffion wrth ymyl yr eglwys.

Yn ymyl hefyd roedd plasty hardd o'r enw Plas Llangwyfan, dyddiad 1584, ac ar ffin ucha'r *Parks* mae plasty o'r enw Vron Yw sy'n dyddio o'r 1500au hwyr i'r 1600au cynnar. Tua 1700, roedd yn lleiandy i Frodyr Mynachlog gan fod Harri'r Vlll wedi diddymu'r mynachlogydd yn gynharach.

Mae 'na dwnnel sy'n rhedeg o dan y cae o blasty Vron Yw, ac yn arwain lawr, ar draws y cae, o dan ddarn o dir lle'r oedd cloddio yn y gorffennol, hyd hen dŷ golchi mae'n debyg, lle'r oedd ffynnon naturiol yn codi – mae olion yr adeilad i'w gweld hyd heddiw.

Cadarnhaodd Mr T H Evans, pen-garddwr Ysbyty Llangwyfan, oedd yn byw ym mythynnod Vron Yw gyda'i deulu (1939–1955) (tad Gwilym Evans, Glennydd) fod twnnel yno. Tynnodd fraslun ac egluro, 'Roedd y Mynachod yn defnyddio'r twnnel i fynd i'r golchdy', ac yna 'Aeth Mr George Lear (aelod o staff y Sanatoriwm) a minnau ar hyd y twnnel yn 1942 am reswm penodol, a mynd i mewn o'r ffordd yn y Park o flaen Fron Yw… a'r adeg honno, roedd o mewn cyflwr da.'

Mae 'na ddau hen lwybr hefyd oedd yn arfer mynd drwy'r caeau – un yn arwain o'r eglwys i Fron Yw. Felly, roedd digon o gyfle i wahanol bobl grwydro'r *Parks* am dros gannoedd o flynyddoedd, a falle gollwng neu golli ambell i beth gwahanol, a'r rheini ymhen amser yn cael eu claddu a'u cuddio – dyna i chi hanes yn aros i'w ddadlennu!

Yn ddiweddar daethom ar draws grŵp canfod metalau *Detect it Nation* (digwyddiadau canfod metelau'r Deyrnas Unedig), ac fe'i cymeradwywyd i ni fel sefydliad proffesiynol trefnus iawn â rheolau i amddiffyn y canfyddwyr, y tirfeddianwyr a'r eitemau oedd wedi eu codi o'r pridd.

Rhaid i bob aelod fod wedi ei yswirio gan *NCMD* (Cyngor Cenedlaethol Datgelu Metalau) neu gywerth. Mae 'na reolau ynglŷn â pharchu'r tir ac mae'r holl ddigwyddiadau'n cael eu rheoli a'u monitro gan aelodau'r tîm gweinyddu.

Rhaid i bob un sy'n mynychu'r digwyddiad gyrraedd ar amser penodol i gael cyfarwyddiadau a rhaid gadael y tir ar amser penodedig. Hefyd mae manylion ynglŷn â therfynau a rheolau yn eu lle ynglŷn â rhannu unrhyw enillion gyda thirfeddianwyr.

Mae lluniau o'r darganfyddiadau'n cael eu rhoi ar dudalen Facebook y grŵp, a rhennir syniadau ynglŷn â beth ydi'r eitem a'i oedran.

Mae unrhyw beth sy dros 200 mlynedd oed

# Be sy mewn cae?: parhad

neu o arwyddocâd hanesyddol penodol yn cael ei adrodd yn ôl i Gynllun Henebion Cludadwy drwy'r Swyddog Cysylltu Canfyddiadau. Maen nhw'n pennu oed ac adnabyddiaeth, ac os ydi o fynd i amgueddfa, neu i rywle arall, neu ei roi'n ôl i'r canfyddwr.

https://finds.org.uk/

https://museum.wales/portable-antiquities-scheme-in-wales/

Felly, a ganfyddwyd unrhyw beth o'r 5 digwyddiad ar y fferm rhwng Dydd Sul 23 Mehefin a Dydd Sul 4 Awst?

Rhaid i chi ddarllen am hynny yn Llais fis nesa!!

*Julia Hughes*

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345




# Newyddion pêl-droed

Mae maes pêl-droed Cae Nant wedi ei ail-hadu ac mae blaen y goliau wedi'u hail-dywyrchu. Mae'r Clwb yn diolch i Gymdeithas Chwaraeon Llandyrnog a'r Cynghorydd Merfyn Parry am ei gyfraniad hael tuag at gynnal a chadw. Hefyd diolch o galon i bawb ohonoch fu'n helpu i ail-dywyrchu blaen y goliau a'r smotiau cosb.





Roedd ail rownd Cwpan Nathaniel MG rhwng Clwb Pêl-droed y Bala a Chlwb Pêl-droed Rhuthun yn gêm nodedig iawn i ddau ddyn ifanc o Landyrnog. Chwaraeodd Teifi Williams, aelod o dîm Ruthin Colts, ei gêm gyntaf dros y tîm cyntaf, gan ddod ymlaen fel eilydd yn ystod yr ail hanner. Daeth Tom Hughes ymlaen fel eilydd hefyd yn ystod yr ail hanner a sgoriodd y gôl a enillodd y gêm i'r Bala, 5 munud cyn diwedd y gêm.






(*Llun: CPD y Bala* )

# Rownd y byd ac adre'n ôl

Rhwng Hydref a Mai 2023/24, roedd Jack y gŵr a finne'n ddigon ffodus i wireddu oriau lawer o freuddwydion a theithio'r byd efo'n gilydd. Daeth ein ffrind gore Joe efo ni ar y trip hefyd. Mi ddechreuon ni'r antur fawr yng Nghosta Rica a gorffen yn Cambodia, gan deithio drwy De America, Seland Newydd a De Ddwyrain Asia. Mi gymerodd hi dipyn mwy o amser nag 80 diwrnod Michael Palin, ac mi gawson ni ambell i dro trwstan tebyg i rai Romesh Ranganathan. Ond, mi gawson ni brofiadau gwerth chweil ac mor wahanol i'w gilydd – mwy na fasech chi'n eu gweld mewn cyfres gyfa' gan Simon Reeves. Roedden ni mor lwcus – bydd yr holl brofiadau gwahanol gawson ni'n para am oes!

Mi ddaethon ni'n ôl ag atgofion di-ri a straeon llawn rhyfeddod, i'w rhannu efo unrhyw un oedd â digon o ddiddordeb i wrando (neu'r rhai oedd yn ddigon caredig i gogio bod â diddordeb!!). Un o'r rhai cyntaf i'n croesawu ni'n ôl oedd ein cymdogion da, Ann ac Iestyn, a gan eu bod yn olygyddion *Llais* yn eu tro, gofynnon nhw i ni rannu peth o'r antur y mis hwn. Wedi cael rhodd o gacennau cri a thipyn o ganmol, dyma ni'n cytuno ar y pryd. Ond, o ddifri', mae'n dipyn mwy o dasg rhoi pin ar bapur! Heb lawer o gliw sut i ddechrau, mi ddois i'r casgliad mai'r bobol oedd yn rhannu'r antur efo ni oedd yn gwneud y gwyliau'n fythgofiadwy. Felly, mae'n gwneud synnwyr i ddechre drwy rannu ambell i stori fach am rai o'r cymeriadau ddaru ni gyfarfod ar hyd y daith:

***Johnny, y dyn tacsi, Costa Rica***

Yn nhref La Fortuna, roedd ein dyn tacsi ni mor falch ein bod ni wedi prynu paned o goffi iddo fo, roedd o'n mynnu talu'r ffafr yn ôl – a hynny drwy rannu ei wybodaeth am fywyd gwyllt yr ardal leol. Ei ffefryn o oedd yr aderyn twcan. A ninne newydd ddechre'r daith, ac yn awyddus i gysylltu efo'r bobol leol, mi ddaru ni ateb yn llawn brwdfrydedd (wel, mae twcaniaid yn reit cŵl, chware teg). Â ninne'n glustiau i gyd, rhannodd Johnny ei holl wybodaeth am yr adar yma. Cyn pen dim, mi stopiodd y car er mwyn i ni gael gwylio fideos go hir yn egluro gwahanol ganeuon yr adar twcan, sy'n arbennig i'r ardal yma, ar *YouTube.* Amser dymunol, ond mi ddysgon ni wers reit werthfawr – peidio dangos *gormod* o ddiddordeb i ddechre, achos mi wnaethon ni syrffedu erbyn y 3ydd fideo o ansawdd go sâl! Ond mi rydw i wedi dysgu cân y twcan yn La Fortuna am byth – sŵn tebyg iawn i fochyn. Os nad ydech chi'n fy nghoelio, 'drychwch ar *YouTube!*

***Stefa'r tywysydd, Ecwador***



Ym mhrifddinas ddrwg-enwog Quito, mi aethon ni ar daith dywys gyda Stefa, ar droed o gwmpas yr hen ddinas. Mae'r ddinas ei hun rhwng mynyddoedd folcanig ac ar wasgar am filltiroedd i bob cyfeiriad. Mae cerflun adeiniog o'r Forwyn Fair yn gwylio dros y ddinas – yn 15m talach na cherflun Crist y Gwaredwr yn Rio de Janeiro. Roedd Stefa wrth ei bodd yn dangos llefydd pwysica' Quito i ni, ac yn angerddol ynglŷn â'i theimlad positif o ddyfodol ei gwlad. Eto, wrth fwyta *ponches* (cwpanaid o ewyn meringue blas cwrw), gallem weld protestwyr wedi eu hamgylchynu gan lawer iawn mwy o blismyn gwrth-derfysgol. Eglurodd Stefa mai ymgyrch oedd hon ynglŷn â diflaniad cannoedd o bobol bob blwyddyn yn y brifddinas – roedden nhw'n mynnu cael atebion. Mwya'n y byd o gwestiynau sy'n codi, mwya'n y byd mae'r bobol yn dangos diffyg ymddiriedaeth yn yr awdurdodau. Er hynny i gyd, roedd agwedd Stefa yn dal yn bositif – roedd hyn yn rhan o fywyd bob dydd yno, a'i blaenoriaeth hi oedd

# Rownd y byd ac adre'n ôl: parhad

rhannu'r pethau gorau efo ni. Pethau fel hufen iâ blas caws, gwirod cansen-siwgr gorau (a chryfaf) ei ffrind, a'i thrît arbennig hi yn Ecwador, 'caca de perro' – ia, dyna chi – baw ci!

Mi gawson ni ddiwrnod mor hwyliog efo Stefa, ond roedd hi'n anodd dygymod â'r gwahaniaeth rhwng y bobol hwyliog buon ni'n siarad â nhw, a realiti brawychus bywyd bob dydd yn Quito. Cofiwch, mi welson ni bethau o bersbectif arall Stefa pan ddwedodd hi'n onest mai ei breuddwyd rhyw ddiwrnod fyddai teithio i le fyddai'n ddiogel iddi gerdded yn y nos! Gobeithio rhyw ddiwrnod na fydd raid i Stefa drafeilio i wireddu'r freuddwyd yma.

***Gweinydd o'r enw Joseph, Columbia***

Gweinydd: "Beth fasech chi'n hoffi i yfed?"
Ni: "Stella Artois, por favor."
Gweinydd: "Begio'ch pardwn"
Ni: "Stella Artois….?"
Gweinydd: *ochneidio* " Plîs stopiwch drio siarad Sbaeneg, a jyst gofyn yn Saesneg."
Ni: (yn holi'n gilydd yn delepathig) ….. *sut aflwydd yden ni'n mynd i ddweud 'Stella Artois' yn Saesneg*?! *Yn lle hynny, pwyntio at y fwydlen*
Gweinydd: Oo! "'Dech chi isio Stella Artois!" – mewn acen braidd yn rhy gry'!
Ni: "Yden, os gwelwch yn dda."
………… Chawson ni ddim gafael da iawn ar y '*lingo*'!

***Polin, gyrrwr Tuk-tuk yn Cambodia***

Yn nhref fywiog Siem Reap, Cambodia daethon ni i ddibynnu dipyn ar Polin, oedd yn gyrru *tuk-tuk* o gwmpas y lle. Mi ddaethon ni i 'nabod Polin yn reit dda, ond mi gawson ni syrpréis wrth fynd i'r maes awyr. Roedd o'n mynnu mynd allan o'i ffordd arferol i gyflwyno ei wraig a'i blant i ni – falle ddim y peth gore o ran diogelwch a chyrraedd y maes awyr mewn pryd! Ond, doedd dim rhaid poeni – roedd y gwahoddiad caredig yn un diffuant iawn ac mi ddalion ni'r awyren! Wrth fynd i mewn i'r tŷ, roedd Polin wedi hel y plant aton ni i'n croesawu – a'r rheini'n llusgo'u traed, yn llawn embaras, cystal â deud "O na, Dad, dim eto!". Ond, chwarae teg iddyn nhw, mi arhoson nhw i siarad efo ni. Roedd ei fab yn gwisgo crys Manchester United ac yn methu credu'n bod ni'n hedfan i Fanceinion. Roedd y ferch hynaf bron yn un ar ddeg ac yn gobeithio cael moped i yrru i'r ysgol – oed arferol i blentyn yn Cambodia. Doedd cael gweld teulu fel hyn ddim yn rhan o'r cynllun pan ofynnon ni i Polin am lifft i'r maes awyr, ond roedd o'n ddiwedd perffaith i'n hymweliad â Chambodia.

*Jack a Fran Williams, Helenfa*



*Jack, Fran a Polin*

# Tuesday Club

Daeth aelodau'r clwb at ei gilydd am baned a rhoi'r byd yn ei le ym mis Awst. Bydd y cyfarfod nesaf am 2 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco, dydd Mercher (ie!), 18 Medi. Ein siaradwraig wadd fydd Helen Murphy sy'n gwneud y gemwaith copr hyfryd sydd ar werth yn Nhŷ Ceffyl Bach. Croeso cynnes i aelodau newydd!

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 1af | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 8fed | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 15fed | 11.15am | Boreol Weddi |
| 22ain | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 29ain | 10.30am | Cymun Bendigaid yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych |

Mae'r Parch. Dan Morgan, sydd ar hyn o bryd yn giwrad cynorthwyol gydag Eglwysi'r Wyddgrug, wedi'i benodi'n offeiriad yn Ardal Genhadaeth Dinbych. Bydd yn offeiriad Cenhadaeth ac Ymgysylltu â'r Gymuned, â gofal bugeiliol dros Eglwys St Tyrnog.  Bydd yn dechrau ar ei waith ym mis Tachwedd.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**

becky.gittins.mp@parliament.co.uk

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 01/09 | **5.00** | Parch. Morris Puw Morris |
| 08/09 | 9.45 | Parch. Andras Iago (Cymun) |
| 15/09 | 11.00 | Parch. Ifor ap Gwilym |
| 22/09 | **5.00** | Parch. Robert Parry |
| 29/09 | 11.00 | Parch. Andras Iago |

***Llongyfarchiadau*** i Gwenan, Pen y Bryn ar ennill Cystadleuaeth Unawd Cerdd Dant 16–21 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf a hefyd am chwarae rhan y Fam Eisteddfodol draddodiadol yn y Sioe Gerdd gomedi 'Mess ar y Maes' oedd yn cael ei pherfformio ar faes yr Eisteddfod yn ystod yr wythnos. Bu hefyd yn cyd-greu'r sgript a chyfansoddi rhai o'r caneuon

***Arholiadau*** Llongyfarchiadau i Beca, Elinor a Tomos yn arholiadau Safon Uwch, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Cyflwyniad Cerddorol gan**
y Parch Robert Parry, BMus, BD, Lerpwl
Pnawn Sul Medi 22ain am 5 o'r gloch
yng Nghapel y Dyffryn
*Tocyn £10, plant am ddim*

Yr elw at adeiladau'r capel
a Hosbis St Cyndeyrn




Bydd y gwasanaeth yn cynnwys cyngor ar sut i sicrhau'r incwm gorau,
cyngor ar fudd-daliadau lles, dyled, ynni'r cartref, tai a chyngor cyffredinol ehangach.
Bydd y rhan fwyaf o'r cyngor ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
*Gyda chefnogaeth Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog*

Bob dydd Gwener o 10am–12pm yn Yr Ystafelloedd Coco, Llandyrnog, LL16 4HG

**Cynigir cyngor drwy apwyntiad yn unig**

Cysylltwch ag Eleri Jones ar 01824 719623 neu anfonwch e-bost at: advice@cbac.co.uk

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan



*Elfed Williams, yr ail o'r chwith yn y tu blaen, gydag aelodau'r Gymdeithas ger ffynnon St Dyfnog*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com


DBP Denbigh Building Plastics

SUPPLIERS & INSTALLERS

U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


Gwnaeth aelodau a ffrindiau Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan fwynhau'n fawr eu hymweliad ag Eglwys a Ffynnon St Dyfnog, a'r Elusendai yn Llanrhaeadr ddydd Sadwrn 20 Gorffennaf. Dilynwyd hyn gan de, sgwrs a thaith o amgylch gerddi *The Laundry Garden,* Llanrhaeadr.

Diolch arbennig i June Hughes warden yr eglwys, am roi hanes yr eglwys; i Elfed Williams, cyn-gadeirydd Grŵp Adnewyddu Treftadaeth Ffynnon St Dyfnog a roddodd hanes manwl adnewyddu Ffynnon St Dyfnog; ac i Jenny a Tom Williams, *The Laundry Garden* a eglurodd y datblygiadau diweddaraf.

Bydd cyfarfod nesa'r Gymdeithas nos Fercher, 16 Hydref am 7pm, pan fydd Gareth Evans yn sgwrsio am Stadau'r Uchelwyr yn Nyffryn Clwyd – croeso cynnes i bawb. Am ragor o wybodaeth anfonwch e-bost at *llangwyfanhistory@hotmail.com*.

**** NODWCH Y DYDDIAD****

**Cyngerdd**
**nos Sadwrn, 12 Hydref**
**am 7 o'r gloch yn Neuadd y Pentre.**

**Côr Meibion Caerwys a cherddorion dawnus ifanc o'r cyffiniau.**

**Tocynnau'n £10; plant am ddim**
**Yr elw at eglwys St Tyrnog.**

# Gweithdai crefftau

Dewch i ddysgu crefft newydd bob mis, a gobeithio y bydd gennych eitem orffenedig erbyn diwedd y sesiwn. £25 yw cost y gweithdai, ac mae hyn yn cynnwys yr holl ddeunyddiau, te, coffi a bisgedi. Bydd mins peis ar gael yng ngweithdy mis Rhagfyr. Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch neges at Helen, hbrookhouse@yahoo.co.uk, am ragor o fanylion.

**Medi: Darn o gelf i'w roi ar wal, gan ddefnyddio gwŷdd pegiau**
Defnyddio gwŷdd syml i greu darn o gelf i'w roi ar wal, gan ddefnyddio gwlân wedi'i liwio'n naturiol.
Dydd Iau, 19 Medi 7–9pm
Dydd Sadwrn, 21 Medi 10am–12pm

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais o'r* eglwys neu o Tŷ Ceffyl Bach, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**


GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364


# Rysáit

**Cynhwysion**
500g o fins brest twrci
1 nionyn wedi ei dorri'n fân
1 moronen wedi ei gratio
1 pupur coch wedi ei dorri'n fân
1 courgette wedi ei gratio
1 llwy de o oregano sych
2 lwy de o ronynnau garlleg
50g o friwsion bara
1 wy wedi ei guro
Olew i ffrio
1 potyn o stoc cyw iâr
Halen a phupur du mâl

**Y sglein**
1 llwy fwrdd o saws *Worcestershire*
1 llwy fwrdd o biwrî tomato
1 llwy de o finegr balsamig
1 llwy de o baprica mwg
½ llwy de o siwgr
½ llwy de o ronynnau garlleg
1 llwy fwrdd o ddŵr.

**Dull**
Rhowch y popty 'mlaen ar 180 °C.
Dros wres cymedrol, ffriwch y nionyn, y foronen, y pupur a'r courgette mewn mymryn o olew am 5 munud nes maen nhw'n feddal.
Ychwanegwch y potyn stoc a'i droi yn y cymysgedd nes y bydd wedi toddi'n gyfan gwbl.
Gadewch i'r llysiau oeri am ddau funud.
Wrth i'r llysiau oeri, rhowch yr holl gynhwysion ar gyfer y sglein mewn powlen fechan a'u cymysgu'n dda.
Rhowch y twrci, y briwsion bara, y gronynnau garlleg, yr oregano, a'r wy mewn powlen fawr. Ychwanegwch y llysiau a chymysgwch y cyfan yn dda.
Ychwanegwch yr halen a'r pupur mâl.
Rhowch y cymysgedd mewn dysgl dal gwres.
Taenwch y sglein drosto i gyd.
Rhowch yn y popty poeth am 30–35 munud.
Wedi iddo goginio, gadewch lonydd iddo am 5 munud. Yna ei weini gyda chyfwydydd o'ch dewis chi.

# Hanesion Hazel

Mae'r cynhaeaf yn adeg mor bwysig o'r flwyddyn ac yn dynodi bod yr haf yn dirwyn i ben. Yn fuan, bydd caeau cefn gwlad wedi eu clirio o gnydau a bydd pawb yn cychwyn paratoi am y gaeaf. Pan oeddwn yn iau, byddwn yn helpu 'nghymydog i hel gwair. Â'r diwrnod yn dirwyn i ben, byddwn yn aros yn eiddgar am y belen wair olaf! 'A, dyma'r un 'dw i wedi bod yn aros amdani', fyddai'r hen ffarmwr yn ei ddeud wrthon ni – fel tasen ni wedi bod yn chwilio am hon drwy'r dydd! Roedd 'na bwysigrwydd i'r belen wair olaf hon, a byddai pawb yn dringo i dop y llwyth am y daith ola fyny lôn y ffarm, cyn llwytho'r belen anodd ei chael i'r codwr gwair a'i gosod yn y sied wair. Fel arfer adeg y cynhaeaf, byddai'r gweithwyr ffarm yn gwau'r coesynnau ŷd ola' i siâp *'doli ŷd'*, gan ei bod hi'n cynrychioli ysbryd y gwenith, ac yn ei chadw er mwyn sicrhau cynhaeaf da y flwyddyn ganlynol. Ar hyn o bryd, dw i'n edrych ar gontractwyr silwair yn gadael – troellwr i gychwyn, yna'r tractors â'r biniau enfawr, ac yn olaf y fforiwr sy'n troi mewn i'r cae cyferbyn gan bwffian a diflannu yn y pellter. Yn sydyn, mae popeth yn dawel unwaith eto, dim ond y barcutiaid coch yn hofran dros y caeau yn chwilio am gwningod. A dyna ochenaid o ryddhad gen i – mae fy nghôn ffordd ffyddlon wedi atal unrhyw ddifrod i'r tŷ am flwyddyn arall!

Roedd fy nain a'i theulu'n arfer dianc o ardal lygredig Llundain am eu gwyliau blynyddol yn hwyr yn yr haf, lle bydden nhw'n helpu efo'r cynhaeaf drwy weithio yn y caeau a chasglu hopys yng Nghaint. Roedden nhw wrth eu bodd yn medru anadlu awyr iach.

Wel, sut mae 2024 wedi bod? Mi ges i fethiannau a llwyddiannau. Roedd y nionod yn drychinebus – y pridd yn llawer rhy wlyb yn y gwanwyn i blannu'r setiau nionod. Am eu bod nhw'n hwyr yn cael eu plannu, doedden nhw ddim wedi tyfu rhyw lawer. Mae'r ffa dringo wedi mwynhau'r amodau oerach, gwlyb, a llawer o dyfiant gwyrdd a blodau. Rydw i'n mwynhau tynnu ffeuen ddringo yn syth o'r planhigyn a'i bwyta – mae'n llawn sudd a'r blas unigryw ddiwedd haf.

Mae pob tymor yn brofiad dysgu, hyd yn oed i arddwyr profiadol. Mae 'na broblemau annisgwyl, newydd yn codi – o blâu a chlefydau i'r rhai sy'n gysylltiedig â'r tywydd. Rydw i wedi cael problemau mawr gyda llyslau ar y goeden eirin. Mae'r sylwedd gludiog maen nhw'n ei gynhyrchu yn annifyr, ac wedyn mi welwch chi ffwng o lwydni lle mae'r pryfyn sugno wrthi'n brysur. Dydi golchi'r dail ddim yn opsiwn gan ei bod hi'n goeden fawr – mi faswn i yno am hydoedd! Falle mai ei thocio hi fydde orau a gadael y gwaith golchi i'r glaw fydd yn siwr o gyrraedd rywbryd!

Felly, os ydech chi wedi cael eich siomi eleni, trïwch feddwl be' sy' wedi digwydd, a gwneud gwelliannau y flwyddyn nesaf. Dysgu beth sydd, a be sydd ddim yn gweithio ydi gwaith garddio, a pheidio â beio eich hun ormod am fethu. Mae pob blwyddyn yn wahanol ac yn dod âi heriau ei hun, ac ryden ni i gyd yn gwneud ein gorau i ymdopi â'r tywydd a byd natur – mae'r cwbwl yn rhan o arddio, bydd rhai pethau'n ffynnu ac eraill ddim.

**Hazel**



*Tad Hazel yn y cynhaeaf, a Hazel wrthi hefyd*



# Tipio anghyfreithlon



Golygfa drist sy'n anharddu ein cefn gwlad yma yn Llandyrnog – tipio anghyfreithlon ar hap dros nos ger y gwaith trin carthion. Ddim yn waith un o'r preswylwyr lleol dwi'n siŵr. Mwy na thebyg, gwaith cludwyr anghyfreithlon – cludwyr cowboi. Maen nhw'n ymateb i gais y cyfryngau cymdeithasol i gael gwared â sbwriel – am arian yn unig, yn gyrru allan i'r wlad a thipio'n anghyfreithlon.

Felly mae gan bawb ohonom ran i chwarae yma – os oes gennych chi sbwriel i'w glirio a heb gymydog cyfeillgar i'w gymryd i'r safle gwastraff – gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio cludwyr trwyddedig. Gofynnwch am weld eu trwydded, ac, os yw'n ymarferol bosibl, gopi o'r nodyn trosglwyddo h.y. lle cymerwyd y sbwriel. Os ydyn nhw'n anesmwyth neu'n amharod i ddangos y nodyn trosglwyddo, cadwch yn glir. Yn hollol ddiniwed, gallech fod wedi gadael eich cyfeiriad yng nghanol y sbwriel, felly pan mae'r Cyngor yn gwneud gwiriad fforensig – maen nhw'n siŵr o wneud – fe ddaw'n ôl atoch chi. Dyna pam mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod efo pwy rydych chi'n delio.

Mae'r masnachwyr annhrwyddedig hyn yn crwydro ein lonydd yn ystod y dydd yn chwilio am lecyn maen nhw'n meddwl fydd yn lle diogel i dipio – ac yn dychwelyd yn y tywyllwch. Felly byddwch yn wyliadwrus, cysylltwch ag 101 ac adroddwch am unrhyw faniau amheus neu lorïau bychain tipio – falle daw patrwm ledled y sir i'r golwg.

# Diolchiadau

Roedd merched Hwb Llandyrnog yn falch o dderbyn negeseuon diolch yn ddiweddar.

Yr un cyntaf oedd oddi wrth Fanc Bwyd Dinbych. Trosglwyddom ni £200 iddyn nhw o'n casgliadau a chyfanswm o 10.4 kg o fwyd yn ystod y flwyddyn, a wnaeth gwahaniaeth mawr i bobl leol mewn angen. Roeddem ni mor falch bod hwn wedi mynd at achos da.

Yn ail, llythyr hyfryd gan Ambiwlans Awyr Cymru, yn diolch i ni am gyfanswm rhoddion o £1300. Gwnaethon nhw ni'n ymwybodol pa mor bwysig ydi'r rhoddion – rydym ni i gyd yn gwybod bod Ambiwlans Awyr yn darparu gwasanaeth paramedig cyflym mewn amgylchiadau trawmatig, ond mae ganddyn nhw hefyd dîm gofal critigol ymroddedig sydd yn medru ymyrryd mewn achosion brys a'r rhai mwyaf cymhleth. Maen nhw'n medru rhoi anesthetig a chefnogaeth awyrydd i'r claf hyd nes cyrraedd yr ysbyty. Dyma wasanaeth hanfodol rydym ni mor lwcus o'i gael yng Nghymru, ac roeddem ni'n falch o fedru ei gefnogi. Diolch, Llandyrnog, am ein helpu ni i helpu eraill.

*Anne, Gwen, Carolyn, Glynis a Penelope*

# Tŷ Ceffyl Bach

Fe gawson ni ddiwrnod braf iawn yn ein digwyddiad i ddathlu'r haf. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth aton ni. Mwynhaodd pawb y prosecco a'r mefus, gan ychwanegu at fwynhad y siopa. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau cymaint ag y gwnaethon ni. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ein digwyddiad nesaf adeg y Nadolig.

*Angie a Graham Hughes*

